

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Crynodeb o Fil

Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

Medi 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

Medi 2014

Anne Thomas, Helen Jones ac Alys Thomas

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



**Y Gwasanaeth
Ymchwil**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Blog: pigion.wordpress.com

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 14/2109
Rhif dogfen: 14 /040

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Biliau Aelod: y gweithdrefnau	2
3.	Datblygu Polisi	3
4.	Amcanion polisi'r Bil	4
4.1.	Addysg ariannol	4
4.2.	Strategaethau cynhwysiant ariannol	4
4.3.	Cyngor am reolaeth ariannol	5
5.	Y Bil	7
5.1.	Adrannau 1-3: Rhagarweiniol.....	7
5.2.	Adrannau 4-7: Addysg ariannol	7
5.3.	Adrannau 8-10 Strategaethau cynhwysiant ariannol	7
5.4.	Adrannau 11-13 Cyngor am reolaeth ariannol.....	8
5.5.	Adrannau 14 ac 15.....	9
6.	Y polisi presennol ac ymgynghoriadau perthnasol	10
6.1.	Gofynion presennol y cwricwlwm a newidiadau yn y dyfodol	10
6.2.	Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru	11
6.3.	Uned Addysg Ariannol Cymru.....	12
6.4.	Cyfrifoldebau awdurdodau lleol	12
7.	Goblygiadau ariannol y Bil	13
8.	Ymatebion i'r Bil	14
8.1.	Pleidiau gwleidyddol eraill	14

Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

1. Cyflwyniad

Dyddiad cyflwyno: 15 Gorffennaf 2014

Yr Aelod sy'n gyfrifol: Bethan Jenkins AC

Y Pwyllgor sy'n gwneud gwaith craffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1: y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1: 14 Tachwedd 2014

Ar 17 Gorffennaf 2013, roedd Bethan Jenkins AC, Plaid Cymru, yn llwyddiannus mewn balot¹ i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghych llythrennedd ariannol ymysg y boblogaeth gyffredinol. Ar 16 Hydref 2013, cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru² y byddai Bethan Jenkins AC yn cael caniatâd i gyflwyno ei Bil. Yn dilyn nifer o ymarferion ymgynghori, cyflwynodd Bethan Jenkins AC y [Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol \(Cymru\)](#) ar 15 Gorffennaf 2014, a gwnaeth [ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn](#) ar 16 Gorffennaf 2014.

Cyfeiriwyd y Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at ddibenion gwaith craffu. Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor yn cynnal [ymgyngoriad](#) ar y Bil, sy'n dod i ben ar 3 Hydref 2014. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y Bil yn ystod Cyfnod 1, sy'n dechrau ar 17 Medi 2014, a dylai gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar Gyfnod 1 erbyn 14 Tachwedd 2014. Dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 29 Ionawr 2015, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.³

Prif amcan polisi'r Bil yw rhoi'r wybodaeth a'r gallu ariannol angenrheidiol i bobl Cymru er mwyn iddynt allu rheoli eu hamgylchiadau ariannol yn effeithiol. Wrth wneud hynny, mae Bethan Jenkins AC yn dweud y bydd y cynigion yn helpu i gynyddu ffyniant yng Nghymru drwy wella addysg ariannol a gallu ei dinasyddion.

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o brif amcanion a darpariaethau'r Bil, yn disgrifio rhai datblygiadau polisi perthnasol yng Nghymru ac yn rhoi crynodeb o ymateb cychwynol y pleidiau gwleidyddol yng Nghymru.

¹Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [y Pedwerydd Cynulliad \(2011-2016\) Balotau Deddfwriaethol](#)

²Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion](#), 16 Hydref 2013

³Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Busnes, [Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol \(Cymru\)](#) ,

2. Biliau Aelod: y gweithdrefnau

Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi, "rhaid i'r Llywydd gynnal balot i benderfynu ar enw Aelod heblaw aelod o'r llywodraeth a gaiff ofyn am gytundeb i gyflwyno Bil Aelod".

Rhaid i'r balot gynnwys enwau'r holl Aelodau hynny sydd wedi gwneud cais i gael eu cynnwys ac sydd wedi cyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen cyn cynnal balot drwy Swyddfa Gyflwyno'r Cynulliad. Y Swyddfa Gyflwyno sy'n cynnal y balot ac a fydd yn rhoi gwybod i'r Aelod llwyddiannus am y canlyniad.

Caiff Aelod sy'n llwyddo mewn balot gyflwyno cynnig (o fewn 25 diwrnod i ddyddiad y balot) sy'n gofyn i'r Cynulliad gytuno iddo gyflwyno Bil er mwyn i'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd gael ei rhoi ar waith.

Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi bod rhaid trefnu bod amser ar gael i drafod cynnig o'r fath yn y Cyfarfod Llawn o fewn 35 diwrnod gwaith i ddyddiad y balot (heb gynnwys diwrnodau gwaith pan na fydd y Cynulliad yn cwrdd).

Nid oes angen dogfennau ychwanegol gan yr Aelod cyn y ddadl, fodd bynnag, mae'r ddadl yn gyfle i'r Aelod wneud ei achos dros y Bil ac i ddarbwyllio Aelodau eraill i gefnogi'r cynnig.

Os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo gan fwyafrif o Aelodau'r Cynulliad, mae'r Aelod yn cael caniatâd i gyflwyno Bil yn ffurfiol. Mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod gyflwyno'r Bil o fewn naw mis, fel arall bydd y cyfle yn cael ei golli.

Os nad yw'r Cynulliad yn cytuno i ganiatáu i'r Aelod fynd ymlaen â chyflwyno'r Bil, ni ellir cymryd unrhyw gamau pellach ynghylch y cynnig. Mae'r Rheolau Sefydlog yn gwahardd unrhyw Aelod rhag ailgyflwyno cynnig tebyg o fewn chwe mis wedi i'r cynnig gael ei wrthod.

Ar ôl ei gyflwyno, mae Bil Aelod yn destun i'r un broses deddfwriaethol pedwar cam yn y Cynulliad â Biliau arfaethedig y Llywodraeth. Mae'r adran ganlynol yn esbonio'r prosesau deddfwriaethol gwahanol y mae Bil yn destun iddynt yn ystod ei daith drwy'r Cynulliad.

3. Datblygu Polisi

Wrth ddatblygu'r Bil, gwnaeth Bethan Jenkins cryn dipyn o waith ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys: gwaith gan Dîm Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol ar ran Bethan Jenkins; cyfarfodydd a gynhaliwyd gan Bethan ei hun; a phapur ymgynghori ffurfiol.

Arolygon Haf 2013

Yn ystod haf 2013, gwnaeth Tîm Allgymorth Cynulliad Cenedlaethol Cymru waith ymchwil ar y cynigion yn y wybodaeth a gyflwynwyd cyn y balot. Cynhaliwyd dau arolwg gyda'r cyhoedd (279 o ymatebwyr) a disgyblion o oedran ysgol uwchradd (195 o ymatebwyr).

Arolygon Gwanwyn 2014

Ym mis Mawrth a mis Ebrill 2014, gwnaeth Tîm Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol waith ymgysylltu ychwanegol gyda manylion pellach am y cynigion ar gyfer y Bil. Unwaith eto, cafwyd dau arolwg: roedd un o'r rhain â'r nod o ymgysylltu â phobl ifanc oedran ysgol uwchradd, a chafwyd 226 o ymatebion, ac roedd y llall yn targedu'r cyhoedd yn gyffredinol, a chafwyd 228 o ymatebion.

Ymgysylltu a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol

Fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, mae Bethan Jenkins hefyd wedi cwrdd â nifer o sefydliadau a rhanddeiliaid neu wedi siarad â hwy i drafod ei chynigion, ac mae hynny wedi llywio a dylanwadu ar y gwaith o baratoi'r Bil. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

Awdurdodau lleol; Dyfodol Defnyddwyr; NUT Cymru; y Gwasanaeth Cynghori Ariannol; Hwrwyddwr Cynhwysiant Ariannol Cenedlaethol Cymru; Awdurdodau safonau masnach; MoneyLine Cymru; Undebau credyd; Cartrefi Cymunedol Cymru; Age Cymru; Gweithredu dros Blant; Shelter Cymru; Go Compare; MyBnk; Grŵp Addysg Cyllid Personol; Uned Benthycia Arian Anghyfreithlon; Barclays Money Skills; ColegauCymru; Principality; Canolfannau Cyngor ar Bopeth; Estyn; Awdurdod Cymwysterau'r Alban; yr Athro Graham Donaldson; The Money Charity; MoneySavingExpert; Agored Cymru; Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru; Cymdeithasau tai; Athrawon a'r cyhoedd.

Yr ymgynghoriad ffurfiol

Cyhoeddodd Bethan Jenkins bapur ymgynghori ar 17 Mawrth 2014⁴ ac roedd yn destun cyfnod ymgynghori o chwe wythnos tan ddydd Llun 28 Ebrill. Cafwyd ymatebion gan 27 o sefydliadau, gan gynnwys amrywiaeth o randdeiliaid o fyd addysg a llywodraeth leol a'r gymuned.⁵

⁴Bethan Jenkins AC, [Ymgynghoriad ynghylch Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol \(Cymru\)](#), March 2014

⁵Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol \(Cymru\)](#)

4. Amcanion polisi'r Bil

Yr hyn a nodwyd fel amcan polisi'r Bil yw rhoi'r wybodaeth a'r gallu ariannol angenrheidiol i bobl Cymru er mwyn iddynt allu rheoli eu hamgylchiadau ariannol yn effeithiol. Mae'r **Memorandwm Esboniadol** yn nodi bod cynigion y Bil yn perthyn i dri chategori bras:

- **Bydd y Bil yn gwella gallu ariannol ymhlith plant oedran ysgol (oed 7-16) a phobl ifanc** drwy ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol fod addysg ariannol yn cael ei chynnwys yn y cwricwlwm ysgol (adrannau 4 i 7 o'r Bil).
- Bydd y Bil yn cryfhau swyddogaeth awdurdodau lleol wrth helpu pobl i osgoi mynd i drafferthion ariannol, drwy ei gwneud **yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu strategaeth cynhwysiant ariannol** (adrannau 8 i 10 o'r Bil).
- Bydd y Bil yn gosod **dyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran darparu cyngor am reolaeth ariannol**, yn gyffredinol ac yn benodol i blant 16 neu 17 oed sy'n derbyn gofal, neu i blant a myfyrwyr a arferai dderbyn gofal (adrannau 11 i 13 o'r Bil).

4.1. *Addysg ariannol*

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofyniad statudol i addysg ariannol gael ei chyflwyno fel rhan sylfaenol o'r cwricwlwm ysgol sylfaenol. Ni fyddai'r canllawiau ynghylch sut y dylai ysgolion ddarparu addysg ariannol yr un fath ag ar gyfer un o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol; byddent yn debyg i agweddau statudol eraill ar y cwricwlwm ysgol, fel addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Mae Bethan Jenkins yn rhagweld y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi fframwaith anstatudol, fel sy'n digwydd ag ABCh, gan roi arweiniad clir ar ei disgwyliadau ynghylch y cynnwys. Gallai hyn gynnwys gwahaniaeth rhwng y cymwyseddau craidd sydd eu hangen i fod yn llythrennog yn ariannol a chyfleoedd eraill mwy hyblyg y byddai modd eu cynnig i ddisgyblion.

Ni fyddai'r gofyniad statudol i ysgolion a gynhelir ddarparu addysg ariannol yn gwbl newydd na'n groes i ddatblygiadau sydd eisoes wedi digwydd a gweithgarwch diweddar Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Felly, bwriad Bethan Jenkins yw sefydlu addysg ariannol yn rhan o'r cwricwlwm statudol gan ffurfioli llawer o'r hyn sy'n digwydd eisoes ac adeiladu ar hynny er mwyn gwella a chysoni'r ddarpariaeth i bobl ifanc.

4.2. *Strategaethau cynhwysiant ariannol*

Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu strategaeth cynhwysiant ariannol.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio strategaeth cynhwysiant ariannol. Rhaid i'r strategaeth hon amlinellu sut y mae'r awdurdod yn

bwriadu hyrwyddo cynhwysiant ariannol unigolion sy'n byw yn ei ardal; sut y bydd yn annog unigolion sy'n byw yn ei ardal i feithrin sgiliau mewn llythrennedd ariannol a rheolaeth ariannol; sut y bydd yr awdurdod yn hwyluso mynediad am ddim at wasanaethau addysg a rheolaeth ariannol ar-lein; a sut y mae'n bwriadu gweithio gyda sefydliadau eraill a all hyrwyddo cynhwysiant ariannol yn ei ardal. Rhaid i bob awdurdod lleol ymgynghori cyn llunio ei strategaeth. Rhaid i'r awdurdodau adolygu'r strategaeth bob pum mlynedd a rhaid iddynt gyhoeddi adroddiad blynyddol yn amlinellu sut y maent wedi rhoi'r strategaeth ar waith.

Mae'r Bil yn ceisio cydbwysedd rhwng sicrhau bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru gynllun strategol i fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol a chaniatáu hyblygrwydd er mwyn i bob strategaeth allu ymateb i amgylchiadau lleol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd gofyniad i lunio adroddiad blynyddol ar weithredu'r strategaeth yn sicrhau bod modd i unrhyw un sydd â diddordeb i fonitro, meincnodi a chraffu ar waith pob awdurdod yn y cyd-destun hwn.

Byddai rhoi gallu i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i lunio strategaethau cynhwysiant ariannol ac o ran eu cynnwys a'u hadolygu yn caniatáu ymdriniaeth o'r materion hyn fel rhan o gynllunio strategaethol ehangach awdurdodau lleol os tybir bod hynny'n briodol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cydnabod na all awdurdodau lleol gyflawni ar yr agenda cynhwysiant ariannol ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, mae'r Bil yn pwysleisio'r rôl ganolog sydd gan awdurdodau lleol wrth gydlynu a darparu gwasanaethau lleol amrywiol yn eu hardaloedd.

Mae adran 9(1)(b) yn nodi y dylai hyn gynnwys helpu dinasyddion i ddeall goblygiadau ac effeithiau masnachu ar y stryd a galwadau diwahoddiad, er mwyn sicrhau, er enghraifft, fod awdurdodau yn gweithredu i helpu dinasyddion rhag cael eu targedu gan sgamiau, cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog a benthycwyr anghyfreithlon. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y bwriadwyd yn wreiddiol i'r Bil ddeddfu gyda'r nod o wahardd galwadau diwahoddiad mewn ardaloedd penodol yng Nghymru. Gan y gallai hyn fod y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, nid yw hyn wedi cael ei gynnwys ar wyneb y Bil.

4.3. Cyngor am reolaeth ariannol

Bydd y Bil yn rhoi dyletswyddau i awdurdodau lleol ddarparu cyngor am reolaeth ariannol. Mae hyn yn cynnwys yn benodol y ddarpariaeth i roi cyngor i blant 16 ac 17 oed sy'n derbyn gofal ac i fyfyrwyr.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod pobl ifanc y maent wedi cael cyfrifoldeb i ofalu amdanynt yn y gorffennol yn cael cyngor priodol am wasanaethau ariannol a rheolaeth ariannol.

Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod prifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yn eu hardaloedd yn darparu gwybodaeth am reolaeth ariannol i fyfyrwyr. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud mai dymuniad gwreiddiol Bethan Jenkins oedd cyflwyno trefniadau llawer mwy pellgyrhaeddol ar gyfer darpariaeth cymorth a chynghor am lythrennedd ariannol mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch. Fodd bynnag, mae'r Bil yn ceisio cadw'n gyson â chyfeiriad deddfwriaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Mae *Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014* wedi llacio rheolaeth Gweinidogol dros sefydliadau addysg bellach i ail-gategoreiddio'r sector, at ddibenion cyfrifyddu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), o'r llywodraeth i sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd (NPISH). O ganlyniad, nid yw'r Bil yn ceisio ymyrryd yng ngweithdrefnau uniongyrchol y fath sefydliadau ac nid yw'n gosod gofynion newydd arnynt. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud ei bod yn glir bod gan brifysgolion a cholegau rwymedigaethau gofal a lles i'w myfyrwyr, ac, mewn nifer o achosion, maent eisoes yn darparu gwasanaethau sydd â'r nod o wella llythrennedd ariannol myfyrwyr.

5. Y Bil

Mae'r Bil yn cynnwys 15 o adrannau.

5.1. *Adrannau 1-3: Rhagarweiniol*

Mae adrannau 1-3 o'r Bil yn rhoi trosolwg o'r Bil a dehongliad o'r diffiniadau allweddol sy'n berthnasol i'r Bil, er enghraifft, "addysg ariannol".

5.2. *Adrannau 4-7: Addysg ariannol*

Mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i addysgu addysg ariannol mewn ysgolion a gynhelir ac i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol.

Mae **Adran 4** yn diwygio adran 101 o *Deddf Addysg 2002*. Mae'r gwelliant hwn yn ychwanegu addysg ariannol at y rhestr o bynciau i'w dysgu fel rhan o'r cwricwlwm sylfaenol. Bydd y gofyniad i addysgu addysg ariannol yn berthnasol at yr ail, y trydydd a'r pedwerydd cyfnod allweddol.

Mae **Adran 5** y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori ag arbenigwyr perthnasol wrth ddatblygu cynnwys y cwricwlwm ar addysg ariannol.

Mae **Adran 6** y Bil yn gosod gofynion ynghylch adolygu cynnydd addysg ariannol. Bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad yn ystod pob blwyddyn ariannol a fydd yn adrodd ar gynnydd addysg ariannol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

Mae **Adran 7** y Bil yn gosod rhwymedigaethau penodol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael addysg ariannol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod hyn yn adlewyrchu swyddogaeth awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol i'r plant y maent yn gofalu amdanynt a statws plant sy'n derbyn gofal, fel grŵp sy'n arbennig o agored i niwed, y gellid dadlau bod hyd yn oed mwy o angen addysg ariannol gref arnynt na phlant a phobl ifanc eraill.

5.3. *Adrannau 8-10 Strategaethau cynhwysiant ariannol*

Mae **Adran 8(1)** y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi strategaeth cynhwysiant ariannol. Diben cyffredinol hynny yw sicrhau bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru gynllun strategol yn amlinellu'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i hyrwyddo cynhwysiant ariannol a llythrennedd ei drigolion. Mae **Adran 8(2)** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â phersonau priodol, gan gynnwys y trydydd sector, cyn paratoi eu strategaethau ac mae **Adran 8(3)** yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol adolygu ei strategaeth bob pum mlynedd.

Unwaith y bydd awdurdod lleol wedi mabwysiadu strategaeth cynhwysiant ariannol, mae **Adran 8(4)** yn cynnwys gofyniad i bob awdurdod lleol gyhoeddi

adroddiad ym mhob blwyddyn ariannol yn nodi sut y gweithredodd ei strategaeth cynhwysiant ariannol yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Adran 9: Cynnwys y strategaeth: Mae'r adran hon yn rhoi rhestr o'r ffactorau y mae'n rhaid eu nodi mewn strategaeth cynhwysiant ariannol.

Prif bwrpas y darpariaethau yn **Adran 9(1)** y Bil yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn nodi sut y byddant yn hyrwyddo cynhwysiant ariannol y trigolion ac yn annog unigolion i feithrin sgiliau mewn llythrennedd ariannol. Mae **Adran 9(1)(b)** yn nodi y dylai hyn gynnwys helpu dinasyddion i ddeall goblygiadau ac effeithiau masnachu ar y stryd a galwadau diwahoddiad a sut y byddant yn annog pobl i ddeall yr effaith andwyol y gall gamblo ei gael ar eu hamgylchiadau ariannol. Mae'r ddarpariaeth yn **Adran 9(1)(c)** yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn nodi yn eu strategaethau cynhwysiant ariannol sut y maent yn bwriadu annog unigolion i feithrin sgiliau rheolaeth ariannol priodol, gan gynnwys dealltwriaeth o wasanaethau undebau credyd. Mae **Adran 9(1)(d)** yn nodi y dylai strategaeth cynhwysiant ariannol amlinellu ymhellach sut y mae awdurdod lleol yn bwriadu hwyluso mynediad am ddim at wasanaethau addysg a rheoli arian ar-lein (p'un ai drwy lyfrgelloedd neu fel arall). Mae **Adran 9(1)(e)** y Bil yn nodi bod rhaid i bob strategaeth cynhwysiant ariannol nodi sut y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cydweithio â sefydliadau yn ei ardal sy'n hybu cynhwysiant ariannol.

Mae **adran 9(2)** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, **drwy is-ddeddfwriaeth**, y rhestr o ffactorau i awdurdodau lleol eu hystyried wrth bennu eu strategaethau cynhwysiant ariannol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod y ddarpariaeth hon yn cael ei chynnwys i sicrhau y gall gofynion y strategaeth gael eu diweddarau, o bryd i'w gilydd, i ddiwallu anghenion ac amgylchiadau sy'n newid heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol. Bydd unrhyw orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru yn cael ei wneud drwy weithdrefn gadarnhaol.

Bydd **Adran 10** y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynghylch strategaeth cynhwysiant ariannol pob awdurdod lleol.

5.4. Adrannau 11-13 Cyngor am reolaeth ariannol

Mae **Adran 11** yn darparu i awdurdodau lleol ddarparu cyngor priodol am wasanaethau ariannol a rheolaeth ariannol i bobl ifanc. Mae'r ddarpariaeth yn berthnasol i bobl ifanc categori 1, 2 a 3 fel y'un diffinnir gan Adran 104 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.

Adran 12: Gwybodaeth am ffynonellau cyngor: Mae'r Adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu manylion ar eu gwefannau am ble i gael cyngor ynghylch rheoli arian. Caiff awdurdod lleol ddarparu cyngor am reolaeth ariannol pan fo'n credu nad yw'r cyngor ar gael yn rhesymol fel arall (ond nid yw'n ofynnol iddo wneud hynny).

Adran 13: Mae'r Adran hon yn ymdrin â chyngor i fyfyrwyr ac mae'n ymrwymo awdurdodau lleol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod prifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yn darparu cyngor am reolaeth ariannol i fyfyrwyr.

5.5. Adrannau 14 ac 15

Mae **Adran 14** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y Ddeddf drwy orchymyn (is-ddeddfwriaeth) ond mae Adran 14(4) yn darparu y bydd unrhyw ddarpariaethau yn y Ddeddf, nad ydynt eisoes mewn grym, yn dod i rym ar 1 Ionawr 2018.

Mae **Adran 15** yn rhoi teitl byr i'r Ddeddf.

Mae Asesiad o'r Effaith Hawliau Plant (CRIA) yn [Atodiad A](#) i'r Memorandwm Esboniadol

6. Y polisi presennol ac ymgynghoriadau perthnasol

6.1. Gofynion presennol y cwricwlwm a newidiadau yn y dyfodol

O dan y Bil, byddai addysg ariannol yn cael ei hychwanegu at ofynion y cwricwlwm sylfaenol yng Nghymru o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen (oed 7+). Mae'n ofynnol i ysgolion a gynhelir, drwy statud, ddilyn y cwricwlwm sylfaenol (neu ysgol) er nad oes cyfarwyddyd ynghylch sut y mae'n rhaid iddynt wneud hynny. Mae Adran 101 o *Ddeddf Addysg 2002*, fel y'i diwygiwyd, yn rhestru gofynion y cwricwlwm ysgol sylfaenol yng Nghymru.

Bydd y Bil yn ategu ac yn adeiladu ar yr elfennau hynny o addysg ariannol sydd eisoes yn rhan o ofynion cwricwlwm ysgolion. Ar hyn o bryd, mae addysg ariannol a defnyddio arian yn rhan o'r cwricwlwm mathemateg cenedlaethol, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd statudol a'r fframwaith ABCh anstatudol.

Mae'r cwricwlwm mathemateg yn cynnwys deall a defnyddio arian ym mhob Cyfnod Allweddol.

Mae cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn ofyniad statudol ar ysgolion yng Nghymru a chafodd ei gyflwyno ym mis Medi 2013.⁶ Mae nifer o ddisgwyliadau ynghylch galluedd dysgwyr yn cael eu gosod ym mhob blwyddyn, o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 9. O fis Medi 2014, mae'n ofynnol i athrawon asesu disgyblion yn erbyn y disgwyliadau hyn yn flynyddol. Un o themau'r elfennau rhifedd yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yw "defnyddio sgiliau rhifau" ac o fewn hynny mae elfen o'r enw "Rheoli arian".

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno ail bwnc TGAU mathemateg newydd mewn "rhifedd" yng Nghymru o fis Medi 2015.⁷ Bydd y TGAU rhifedd yn adeiladu ar y lefelau rhifedd sy'n ddisgwyliedig o dan y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dweud y bydd yn cynnwys llythrennedd ariannol.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad cwricwlwm ac asesu mewn dau gam. Mae'r cynigion yng ngham 1, yr ymgynghorwyd arnynt yn hwyr yn 2013, yn ymwneud â sut y dylid diweddarau'r cwricwlwm a threfniadau'r cwricwlwm i gyd-fynd â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd, gan gynnwys adolygu'r rhaglenni astudio ar gyfer mathemateg ym mhob un o'r Cyfnodau Allweddol. Mae disgwyl y bydd newidiadau i'r cwricwlwm yn cael eu cyflwyno ar sail anstatudol o fis Hydref 2014 gan ddod yn statudol o flwyddyn academaidd 2015-16.

Bydd cam 2 yn canolbwyntio mwy ar gynllun y cwricwlwm ac ar ddatblygu cwricwlwm sy'n unigryw i Gymru. Mae disgwyl i'r Athro Graham Donaldson, sydd

⁶ Llywodraeth Cymru, [y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol](#), 2013

⁷ Cymwysterau Cymru, [Dogfennau allweddol ar gyfer TGAU newydd a diwygiedig yng Nghymru](#), Mai 2014

wedi cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i wneud cam 2, gyflwyno adroddiad erbyn diwedd 2014.⁸ Mae'r cynigion asesu wedi cael eu hintegreiddio'n rhan o adolygiad yr Athro Donaldson.

Mae cynnig hefyd fod fframwaith sgiliau ehangach yn cael ei sefydlu, gan ddisodli'r fframwaith sgiliau anstatudol, er bod y Memorandwm Esboniadol yn dweud ei bod yn aneglur sut y gall llythrennedd ariannol fod yn rhan o hynny.

Mae gwybodaeth am gyfleoedd i addysgu addysg ariannol yn y cwricwlwm yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru i ysgolion a cholegau, [Addysg ariannol ar gyfer pobl ifanc rhwng 7 ac 19 oed yng Nghymru](#), 2011.

6.2. *Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru*

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn 2009⁹, ac wedyn ei Chynllun Gweithredu ar Gynhwysiant Ariannol yn 2010¹⁰ a Strategaeth Cynhwysiant Ariannol – Blaenoriaethau 2011-2013¹¹ yn 2011.

Nod Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru oedd nodi'r gwaith a oedd angen ei wneud i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig ag allgáu ariannol. Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at rôl bwysig awdurdodau lleol wrth fynd i'r afael â materion cynhwysiant ariannol yn eu hardaloedd. Roedd gwella mynediad at gyngor a gallu ariannol yn amcanion allweddol yn y strategaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi hwyluso gwaith amlasiantaeth yn y maes hwn drwy Grŵp Cyflawni Cynhwysiant Ariannol, sy'n cwrdd yn chwarterol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu'r prosiect Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol drwy Ganolfan Cydweithredol Cymru.

Yn wreiddiol, roedd y prosiect yn dibynnu ar gyllid o'r tu allan i Gymru; ym mis Rhagfyr 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n parhau i ariannu'r prosiect Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol tan fis Mawrth 2015.¹²

Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud ei bod yn aneglur faint o gynnydd sydd wedi'i wneud wrth weithredu strategaeth Llywodraeth Cymru'n gyffredinol, gan nodi:

- mae'r ddogfen strategol ddiwethaf a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar y mater hwn yn nodi blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod 2011-2013, ac nid oes diweddariad wedi ei gyhoeddi ers hynny

⁸ Llywodraeth Cymru, [Cwricwlwm Cymru - galw am dystiolaeth](#), 16 Mai 2014

⁹ Llywodraeth Cymru, [Strategaeth ar Gynhwysiant Ariannol i Gymru: Mae Pawb yn Cyfrif \(Saesneg yn unig\)](#), Gorffennaf 2009

¹⁰ Llywodraeth Cymru, [Cynllun Gweithredu ar Gynhwysiant Ariannol 2010 \(Saesneg yn unig\)](#), Gorffennaf 2010

¹¹ Llywodraeth Cymru, [Strategaeth Cynhwysiant Ariannol – Blaenoriaethau 2011-13 \(Saesneg yn unig\)](#), Awst 2011

¹² Llywodraeth Cymru, [Extension of support for the Financial Inclusion Champions initiative \(Saesneg yn unig\)](#) 19 Rhagfyr 2012

- yn yr un modd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adroddiad Blynyddol ar ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ym mis Rhagfyr 2010, ond nid oes Adroddiadau Blynyddol pellach wedi dilyn.

6.3. *Uned Addysg Ariannol Cymru*

Tan yn gymharol ddiweddar, cafwyd cefnogaeth benodol ar gyfer darparu addysg ariannol gan Uned Addysg Ariannol Cymru (UAAC), a sefydlwyd yn 2008 o fewn Llywodraeth Cymru. Gweithiodd yr Uned gydag ymarferwyr mewn ysgolion ac awdurdodau lleol ac mewn partneriaeth ag addysg bellach a'r gwasanaethau ariannol a'r trydydd sector.

Daethpwyd â'r Uned i ben ym mis Awst 2013. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud mai'r bwriad bob amser oedd bod yn rhaglen â therfyn amser a bod modd gwneud y gwaith hwnnw bellach drwy'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r adnoddau a'r deunydd a ddefnyddiwyd gan staff yr uned ar gael i ysgolion yng Nghymru.

6.4. *Cyfrifoldebau awdurdodau lleol*

O dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2000*, mae gan awdurdodau lleol bŵer cyffredinol i wneud unrhyw beth a allai hyrwyddo neu wella lles economaidd a chymdeithasol eu hardaloedd. O dan eu dyletswyddau ym *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009*, mae gofyn hefyd iddynt nodi, ynghyd â phartneriaid, amcanion hirdymor i wella lles economaidd a chymdeithasol eu hardaloedd. Mae'r amcanion hyn, yn eu tro, yn llunio strategaeth gymunedol ardal awdurdod lleol. Ers mis Ebrill 2013, o ganlyniad i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae modd meithrin y strategaethau cymunedol hyn yn rhan o gynllun integredig sengl ardal awdurdod lleol. Fel y'i cyflwynwyd, mae'r *Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* yn gwneud darpariaeth bellach a fydd yn rhoi llunio cynlluniau lles lleol gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar sail statudol.

Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi nad oes dyletswydd statudol ar awdurdod lleol i wneud unrhyw beth a fwriedir yn benodol i hyrwyddo cynhwysiant ariannol a llythrennedd ariannol ymysg ei drigolion.

7. Goblygiadau ariannol y Bil

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol yn ystyried tri opsiwn i fynd i'r afael â'r prif ddarpariaethau yn y Bil:

- Opsiwn 1: Gwneud dim
- Opsiwn 2: Camau heb ddeddfu
- **Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth ar gynhwysiant ac addysg ariannol**

Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir gan fod y Memorandwm Esboniadol yn nodi mai dyma'r unig opsiwn a fyddai'n cyflawni amcanion polisi'r Bil. Opsiwn 3 yw'r unig opsiwn y mae costau a buddion wedi darparu ar eu cyfer.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dangos y costau blynyddol a'r costau achlysurol, ac mae'n dangos pwy fyddai'n ysgwyddo'r gost hynny yn ystod y pum mlynedd yn dilyn rhoi'r Bil ar waith.

Amcangyfrifir mai cyfanswm cost y Bil (Opsiwn 3) o'i weithredu am y pum mlynedd cyntaf yw £18.5 miliwn, ac mae hynny ar sail yr hoff opsiwn gydag Estyn yn cynnal yr arolygiadau.

Tabl 1: Crynodeb o gyfanswm costau Opsiwn 3

	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Awdurdodau Lleol	76,615	3,960,442	4,720,204	4,340,323	4,340,323	17,437,907
Estyn - arolygiadau	0	140,200	176,767	160,000	160,000	636,967
Addysg Bellach ac Uwch	2,013	2,013	2,013	2,013	2,013	10,064
Eraill	81,950	31,630	31,630	31,630	31,630	208,470
Llywodraeth Cymru	175,000	0	0	0	0	175,000
Cyfanswm - arolygiad Estyn	335,578	4,134,285	4,930,614	4,533,966	4,533,966	18,468,409

Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Memorandwm Esboniadol - Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol \(Cymru\)](#), 15 Gorffennaf 2014, Tabl 2

Sylwer: I adlewyrchu'r ffaith nad yw'r flwyddyn academaidd yn cyd-fynd â'r flwyddyn ariannol, mae dwy ran o dair o'r costau trosiannol ym mlwyddyn 2 ac mae un rhan o dair ym mlwyddyn 3.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn amcangyfrif y byddai'r gost i Estyn o gynhyrchu adroddiad thematig blynyddol yn lle cynnal arolygiadau yn £40,000 y flwyddyn.

8. Ymatebion i'r Bil

8.1. Pleidiau gwleidyddol eraill

Yn dilyn datganiad Bethan Jenkins AC yn y Cyfarfod Llawn, 16 Gorffennaf, 2014,¹³ holodd sawl Aelod Cynulliad Bethan Jenkins AC am agweddau ar y Bil; nododd rhai Aelodau eu cefnogaeth bersonol yn glir a nododd rhai bryderon ynghylch y Bil.

Mae'r dyfyniadau canlynol yn rhoi blas o ymatebion y pleidiau gwleidyddol eraill:

Dywedodd Jeff Cuthbert, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi:

Rwy'n deall y teimladau sy'n sail i'r Bil hwn, ond mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gwneud llawer o waith da yn y maes hwn, ac nid wyf yn argyhoeddedig mai Bil newydd a mwy o fiwrocratiaeth yw'r ateb. Rwy'n credu bod addysg ariannol eisoes yn cael sylw trylwyr mewn ysgolion ledled Cymru, felly a allwch ddweud wrthym pa werth y bydd y Bil yn ei ychwanegu at ein gwaith ar addysg ariannol i bobl ifanc?

Ymatebodd Bethan Jenkins AC gan ddweud:

Fel y dywedais yn fy natganiad, nid wyf yn credu bod y Bil hwn yn gwrthdaro ag unrhyw beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd... [ac wedi hynny, dywedodd]... Mae angen inni wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn cael addysg strategol yn y sector hwn, ac nad yw'n dibynnu ar fympwy athrawon unigol pa un a ydynt yn cael yr addysg ai peidio.

Dywedodd Andrew RT Davies AC, Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig:

Roeddwn yn siomedig ynghylch agwedd hollol negyddol y Gweinidog ynglŷn â'r deddfwriaeth a gynigiwyd. Fodd bynnag, hoffwn ofyn y cwestiwn hwn i'r Aelod sy'n cynnig: a ydych yn llwyr gredu bod angen deddfwriaeth i wneud y gwelliannau hyn ym maes llythrennedd ariannol mewn addysg? Ni allwn gytuno mwy â'r teimladau a fynegwyd gennych nad oes unffurfiaeth yn y system addysg ar hyn o bryd. Rwy'n ymweld â rhai ysgolion lle y ceir arfer da, ac ysgolion eraill lle na cheir hynny o gwbl. Felly, rwy'n ceisio pwysu a mesur yn fy meddwl fy hun ai rheoleiddio mwy cadarn gan Lywodraeth y dydd sydd arnom ei angen neu a oes angen dod â hyn ynghyd mewn deddfwriaeth

Ymatebodd Bethan Jenkins AC gan ddweud:

Diolch i chi, Andrew R.T. Davies, a diolch i chi am eich ymateb cadarnhaol i'r hyn rwy'n ceisio ei wneud. Er mwyn i addysg ariannol gael ei addysgu drwy statud, byddwn yn dweud y byddai'n mynd i'r afael â'r diffygion presennol, lle y mae'n bosibl darparu agweddau ar addysg ariannol mewn ysgolion, ond yn ddibynnol ar ei chynnwys mewn gwahanol ffrydiau cwricwlwm eraill. Nid yw ar gael mewn un lle ar hyn o bryd...

Dywedodd Aled Roberts AC, ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru:

Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r Bil. Rwy'n meddwl bod pob un ohonom sydd â gwaith achos—ym mhob swyddfa, mae'n debyg, yng Nghymru—yn ymwybodol iawn o faint y broblem hon. Mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn siomedig braidd ag ymateb y Llywodraeth. Roedd yn ymddangos ei bod yn credu bod cynlluniau lleol, enfawr yn ffordd o fynd i'r afael â'r broblem hon. Fel un a oedd yn arwain cyngor, heblaw bod rhyw fath o ffocws ar faes penodol, yn gyffredinol, nid oes gobaith i awdurdodau lleol.

¹³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion](#), 16 Gorffennaf 2014